Datganiad Wasg

Helpu i lunio'r dyfodol Help tomorrow take shape

29 Medi 2009

Bysiau Ynys Môn yn cyhoeddi ymarfer y cyfrifiad

Yn Ynys Môn, sy'n un o ddim ond tair ardal yng Nghymru a Lloegr sy'n cymryd rhan yn Ymarfer y Cyfrifiad 2009, crewyd swyddi i 50 o bobl ac adferwyd yr hen gelfyddyd origami ar ochr bysiau'r ynys.

Mae'r ymarfer yn treialu'r systemau a'r gweithdrefnau sydd ar waith ar gyfer Cyfrifiad 2011 a bydd trigolion Ynys Môn ymhlith y cyntaf yn y wlad i dreialu'r opsiynau newydd ynglŷn â holiaduron drwy'r post ac ar lein. Bydd siapiau origami trawiadol yn ymddangos ar yr ynys hefyd, yn cynnwys ar ochr bysiau, i helpu i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth. Mae'r delweddau origami yn arwydd o sut y gall cymunedau helpu i lywio gwasanaethau yn eu hardal leol drwy gymryd rhan.

Mae'r ymarfer wedi creu tua hanner cant o swyddi dros dro newydd ar Ynys Môn sy'n arbennig o addas i drigolion lleol, gan fod gwybodaeth ymarferol o ddaearyddiaeth yr ynys yn hanfodol.

Dywedodd Peter Moore, rheolwr ardal y cyfrifiad ar Ynys Môn: "Cafwyd ymateb ardderchog gan drigolion lleol tra'n recriwtio ar gyfer swyddi'r ymarfer a nawr ein bod wedi creu ein tîm, rydym yn ysu am gael dechrau. Bydd holiaduron yn cael eu dosbarthu i gartrefi pobl o heddiw ymlaen".

Office for National Statistics
Swyddfa Ystadegau Gwladol

Anfonwyd Gan
Office for National Statistics
Segensworth Road
Titchfield
PO5 5RR

Cyswllt
Media Office
01329 44 7654

E-bost
2011censusmedia@ons.gsi.gov.uk

Ymlewch a
www.comms.census.gov.uk

Dywedodd on o gydlynwyr y cyfrifiad, Alison Davies o Ynys Môn “Cefais fy magu yn yr ardal ac felly ni fyddaf yn cael unrhyw drafferth yn dod o hyd i lefydd ac mae'n gyfle gwych i helpu'r gymuned leol".

Dywedodd Glen Watson, Cyfarwyddwr y Cyfrifiad: “Defnyddir ystadegau'r cyfrifiad ar gyfer cynllunio gwasanaethau lleol, clustnodi arian a monitro achosion o wahaniaethu ac felly mae'n bwysig iawn eu bod mor gywir â phosibl. Rydym yn gofyn i drigolion Ynys Môn ein helpu i gael popeth yn iawn ar gyfer Cyfrifiad 2011 drwy gwblhau a dychwelyd eu holiaduron ymarfer. Mae'r holiadur yn hawdd i'w lenwi, yn gyfrinachol a gellir ei gwblhau ar lein bellach".

Mae'r cyfrifiad hefyd yn rhoi darlun clir i ni o sut mae bywyd wedi newid dros y 200 mlynedd diwethaf:

- Cynyddodd poblogaeth Cymru bum gwaith drosodd rhwng 1801 a 1991.
- Yn 1991, nid oedd gan un o bob pump o gartrefi yng Nghymru wres canolog, a oedd yn gyson â'r cyfartaledd cenedlaethol
- Cynyddodd dwysedd y boblogaeth rhwng 1831 ac 1991 yng Nghymru o 0.2 o bobl i 0.5 o bobl fesul erw, sydd dal ond yn cyfateb i hanner y cyfartaledd cenedlaethol
- Lleihaodd nifer gyfartalog y bobl fesul cartref yng Nghymru o chwech o bobl yn 1801 i 2.5 o bobl yn 2001.

Ffeithiau am Ymarfer Cyfrifiad 2009:

- Cynhelir yr ymarfer mewn tair ardal - Caerhirfryn, Bwrdeistref Newham yn Llundain ac Ynys Môn
- Gofynnir i gyfanswm o tua 140,000 o gartrefi yn yr ardaloedd hyn gymryd rhan ar Ddiwrnod Ymarfer y Cyfrifiad, 11 Hydref 2009
- Mae'r ardaloedd hyn yn groestoriad o'r boblogaeth ac yn cynnwys amrywiaeth eang o fathau o dai
- Ar yr un pryd â'r ymarfer cynhelir prawf ar raddfa fach yn Birmingham
- Bydd y prawf yn Birmingham yn cynnwys 17,000 o gyfeiriadau a bydd yn defnyddio rhai o'r gweithdrefnau a'r prosesau sy'n cael eu dilyn o fewn yr ymarfer
- Gofynnir yr un cwestiynau i bawb ar yr un diwrnod er mwyn cael cipolwg o'r boblogaeth ar yr un adeg
- Mae'r cyfrifiad yn hawdd ei lenwi, yn gyfrinachol a gellir ei lenwi ar-lein am y tro cyntaf
- Ni chyhoeddir canlyniadau'r ymarfer ond fe'u defnyddir i wella gweithdrefnau ar gyfer 2011
- Mae cyfanswm o 57 o gwestiynau yng Nghymru, 14 yn ymwneud â'r cartref a'i ystafelloedd a 43 o gwestiynau ar gyfer pob aelod unigol o'r cartref i'w llenwi
- Gellir ateb y rhan fwyaf o gwestiynau drwy nodi tic
- Mae cymryd rhan yn Ymarfer y Cyfrifiad 2009 a'r prawf yn Birmingham yn wirfoddol. Bydd yn ofynnol i bawb gymryd rhan yng Nghyfrifiad 2011

Am ragor o wybodaeth am Ymarfer y Cyfrifiad 2009 neu i ofyn am gopi o gwestiynau'r cyfrifiad mewn braille neu ieithoedd eraill, ewch i www.cyfrifiad.gov.uk neu www.census.gov.uk neu ffoniwch 0300 0200 930.

Ceir hefyd glipiau fideo Iaith Arwyddion Prydain a recordiadau sain ar y safle.